Adroddiad

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys

i

Banel Heddlu a Throseddu Dyfed Powys

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Hydref 2019

Cyflwyniad

Yng Nghynllun Heddlu a Throseddu 2017-21, amlygodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ei fwriad o ddiogelu'r rhai agored i niwed trwy 'wella'r ymateb i gam-drin domestig a thrais ar sail rhywedd gan gynnwys trais corfforol, rhywiol a seicolegol'. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i:

- Comisiynu gwasanaethau cymorth sy'n cynnig cymorth emosiynol ac ymarferol i ddioddefwyr cam-drin domestig a rhywiol i'w helpu i ymdopi â'u profiad a dod drosto, ac i'w helpu i gael y canlyniad gorau posibl trwy'r system cyfiawnder troseddol,
- Parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau sy'n gwella diogelwch y rhai sy'n dioddef cam-drin domestig a lleihau'r risg iddynt,
- Deall natur a graddfa cam-drin domestig mewn cymunedau gwahanol a grwpiau oedran gwahanol, gan gynnwys rhoi pwyslais ar ddiogelu pobl hŷn rhag cam-drin domestig, ac
- Ymchwilio i raglenni atal ar gyfer y rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig i'w helpu i newid eu hagwedd a'u hymddygiad a datblygu perthnasoedd cadarnhaol heb gam-drin.

Nod yr adroddiad hwn yw amlygu'r cynnydd hyd yma.

Y Darlun Cenedlaethol

Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi ei adroddiad cyntaf i ganolbwyntio ar ymateb yr heddlu i gam-drin domestig. Casgliad yr adroddiad oedd nad oedd ymateb yr heddlu yn ei grynswth i ddioddefwyr cam-drin domestig yn ddigon da. Y prif resymau am y casgliad hwnnw oedd methiannau annerbyniol yng ngweithgareddau plismona creiddiol, ymchwiliadau i drosedd, dod â throseddwyr o flaen llys, a gwarchod dioddefwyr.

Cyhoeddwyd yr adroddiad diwethaf yn Chwefror 2019, gan ddefnyddio data o arolygiadau PEEL 2017. Dywedodd yr adroddiad fod y gwasanaeth a roddir i ddioddefwyr cam-drin domestig gan yr heddlu wedi gwella'n sylweddol, gan gefnogi a gwarchod dioddefwyr yn well. Y prif ganfyddiadau oedd:

Mae'r galw wedi cynyddu'n sylweddol; mae angen i Heddluoedd ddeall y darlun cymhleth yn well gan fod rhai'n methu o hyd ag esbonio'n llawn pam bod y galw wedi cynyddu cymaint.

Mae'r heddlu'n blaenoriaethu ymateb i gam-drin domestig; bydd y mesur cam-drin domestig newydd, sy'n cael ei hyrwyddo gan swydd newydd, sef Comisiynydd Cam-drin Domestig, yn adeiladu ar y gwelliannau a gafwyd hyd

yma, gan gyflwyno camau newydd i gefnogi a gwarchod dioddefwyr. Hefyd, mae'r mesur yn creu cyfleoedd newydd i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddwyr.

Y Darlun yn Nyfed Powys

Nododd Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi fod cwblhau asesiadau risg Cam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddu yn faes lle'r oedd angen i Heddlu Dyfed-Powys wella yn 2017. Roedd ei arolygiad o gywirdeb data troseddu yn casglu na chafwyd y fath Asesiad lle na chofnodwyd trosedd. Gwahoddodd yr Heddlu adolygiad gan gymheiriaid a nododd broblemau tebyg. Ymateb yr Heddlu oedd newid y prosesau goruchwylio a sicrhau ansawdd ar gyfer y fath Asesiadau ym Medi 2018.

Yn ôl arolygiad PEEL 2018/19, mae 'angen gwella' ar yr Heddlu o ran Diogelu Pobl Agored i Niwed. Roedd hyn yn cynnwys pryder ynghylch diffyg asesiad risg ym mhob achos o gam-drin domestig, gan golli cyfleoedd am ymyriadau a gweithredu addas ar y cyfle cyntaf oll. Hefyd, roedd arolygiad Cywirdeb Data Troseddu yn 2018 wedi nodi bod trosedd dreisiol, yn arbennig cam-drin domestig, wedi'i than-gofnodi a bod hynny'n destun pryder.

Roedd yr un adroddiad yn nodi bod perfformiad yr Heddlu'n dda o ran cofnodi adroddiadau o droseddau rhywiol, gan gofnodi 93% ohonynt. Er gwaethaf hynny, amcangyfrif yr Arolygiaeth yw bod yr Heddlu'n methu cofnodi dros 70 o droseddau rhywiol bob blwyddyn. Roedd yr Heddlu wedi cofnodi 91% (61 trosedd o gyfanswm o 68) o'r achosion trais a riportiwyd yn gywir, gan ymchwilio i bob achos a gwarchod pob dioddefwr. Fodd bynnag, cafwyd bod angen gwella prydlondeb y cofnodi o ran trais a throsedd rywiol er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn gallu manteisio ar gymorth cynnar.

Yn ymateb y Prif Gwnstabl i'r Comisiynydd yn Ionawr 2019, ceisiodd roi sicrwydd bod gwaith eisoes ar y gweill yn y meysydd lle oedd angen gwella, ac yn arbennig o ran cam-drin domestig. Sicrhawyd goruchwyliaeth well o'r fath achosion a blaenoriaethwyd archwiliad yn y maes hwn. Roedd Cyfarwyddwr Cynorthwyol wedi'i ddirprwyo i arwain prosiect i wella'r ymateb i achosion cam-drin domestig yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys cofnodi'r manylion a chwblhau asesiadau Cam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddu.

Gwaith Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys

Goruchwylio a sicrwydd annibynnol

Mae'r Comisiynydd yn goruchwylio ymateb yr Heddlu i gam-drin domestig a thrais rhywiol trwy fynychu nifer o grwpiau strategol bob chwarter: y Grŵp Strategol ar gyfer y Rhai sy'n Agored i Niwed, y Grŵp Aur ar gyfer Cam-drin

Domestig, a'r Grŵp Trais a Throsedd Rywiol Ddifrifol. Mae hefyd yn defnyddio data a ddarperir trwy'r Bwrdd Perfformiad a Chanlyniadau. Trafodir data ynghylch bodlonrwydd dioddefwyr cam-drin domestig yng nghyfarfodydd Bwrdd Dioddefwyr a Thystion yr Heddlu, sy'n cynnwys cynrychiolydd o Swyddfa'r Comisiynydd. Trafodwyd y mater ym Mwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yn Awst 2019 hefyd, a chyhoeddwyd datganiad i'r wasg gan y Comisiynydd ar ôl y cyfarfod yn canmol y gwelliannau o ran nodi ac ymateb i gam-drin domestig ond gan amlygu bod rhagor i'w wneud yn y maes allweddol hwn.

Yn Ionawr 2018, nododd yr Heddlu fod cam-drin domestig yn un o'r tair blaenoriaeth greiddiol ar gyfer y 12 mis canlynol, yn sgil pryderon a fynegwyd gan arolygwyr Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi am asesiadau risg cychwynnol mewn achosion cam-drin domestig.

Roedd y gwaith a ddilynodd hynny'n cynnwys cyflwyno desg benodol ar gyfer Pobl Agored i Niwed yn ystafell reoli'r Heddlu, sy'n derbyn galwadau brys yn ogystal â galwadau di-frys, i helpu'r staff sy'n derbyn y galwadau a'r heddweision sy'n ymateb iddynt nodi achos o gam-drin domestig ar y cyfle cyntaf posibl, gan wneud asesiad risg a sicrhau cofnodi'r drosedd yn gywir.

Mae'r Heddlu wedi buddsoddi mewn cwrs hyfforddi pwrpasol, o'r enw 'Mae Cam-drin Domestig o bwys', sydd wedi'i glodfori'n genedlaethol ac sy'n gweithio ar y cyd â gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol i wella dealltwriaeth heddweision a staff o agweddau cudd ar gam-drin domestig, megis rheolaeth gymhellol.

Mae'r Comisiynydd wedi codi pryderon ynghylch yr amser a gymerir i gwblhau rhai ymchwiliadau, ac wedi trafod hyn yn fanwl â'r Tîm Prif Heddweision ac â'r Pennaeth Trosedd i graffu ar ymateb yr Heddlu yn y maes pwysig hwn. Mae Grŵp Aur Safonau Ymchwilio wedi'i sefydlu i ganolbwyntio ar sicrhau bod gan heddweision a staff y sgiliau a'r wybodaeth i sicrhau ymchwiliadau cyflym o safon ar gyfer dioddefwyr trosedd. Mae hyd ymchwiliad yn effeithio'n uniongyrchol ar ddioddefwyr ac mae'n hanfodol ein bod yn cynnal ymwneud dioddefwyr â'r broses cyfiawnder troseddol.

Ar hyn o bryd, mae swyddfa'r Comisiynydd yn gweithio gyda Heddlu Dyfed-Powys er mwyn datblygu ymagwedd tuag at asesu effaith y ddesg fregusrwydd ar ddioddefwyr cam-drin domestig.

Lobïo'r llywodraeth ac asiantaethau partner

Mae'r Comisiynydd wedi amlygu nifer o feysydd lle mae gwasanaethau'n ddiffygiol, ac wedi codi'r materion hyn yn gyson gyda Phrif Weithredwyr asiantaethau partner a swyddogion a gweinidogion y llywodraeth lle bo'n addas. Un maes o'r fath yw'r diffyg darpariaeth cwnsela therapiwtig arbenigol ar gyfer dioddefwyr cam-drin rhywiol. Mae hyn yn gyfrifoldeb yr asiantaethau iechyd a

gofal cymdeithasol, a bydd y Comisiynydd yn parhau i godi'r mater hwn gyda phartneriaid a swyddogion.

Ymwybyddiaeth a gweithio mewn partneriaeth

Cadeiriodd y Comisiynydd gyfres o weithgorau gan arwain at fynychu cyfarfod o'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, Cysur, yn 2017 lle cafodd gytundeb y byddai'r Bwrdd yn gweithredu fel Bwrdd Gweithredol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn Nyfed-Powys. Bellach, cynrychiolir y Comisiynydd ar Fwrdd Strategol Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol sy'n gosod strwythur llywodraethu i ddatblygu, cymeradwyo a monitro'r strategaeth ranbarthol o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae'r grŵp hwn yn sicrhau bod gweithdrefnau amlasiantaethol ar waith i wireddu'r cynllun ac i fonitro perfformiad.

Mae'r Comisiynydd wedi gweithio gydag arweinwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i sicrhau cysondeb arfer ar draws ardal yr Heddlu o ran trefniadau comisiynu, sicrhau ansawdd a goruchwylio Adolygiadau Dynladdiad Domestig. Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol wedi derbyn nifer o argymhellion a bydd y Grŵp Strategol Rhanbarthol yn eu gyrru yn eu blaen. Mae'r Comisiynydd yn cwrdd â rheolwyr y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol bob tri mis ac mae'n cael gweld yr holl argymhellion o Adolygiadau Dynladdiad Domestig fel y gall graffu ar unrhyw gamau gweithredu y mae angen i'r Heddlu eu cymryd.

Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, a gadeirir gan y Comisiynydd, yn fforwm sy'n tynnu partneriaid allweddol a chynrychiolwyr hŷn asiantaethau cyfiawnder troseddol sy'n gweithredu yn Nyfed-Powys at ei gilydd, gan hwyluso cydweithio a gweithio mewn partneriaeth. Gweledigaeth y Bwrdd yw gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y system cyfiawnder troseddol yn Nyfed-Powys, gan gynnwys gwella profiad dioddefwyr a thystion ac adeiladu ffydd yn y system yn ei chyfanrwydd.

Mae'r Bwrdd wedi dewis themâu i dderbyn sylw yn ystod 2019/20, a bydd cyfarfod mis Hydref yn canolbwyntio ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn benodol. Caiff y Bwrdd gyflwyniad gan yr Ymgynghorydd Rhanbarthol a gyflogir gan Lywodraeth Cymru, a bydd yn cynnal trafodaeth fanwl o astudiaeth achos am unigolyn sydd wedi wynebu sawl her wrth fynd trwy'r system cyfiawnder troseddol.

Yn Nhachwedd 2018, comisiynwyd *George Partnership Limited* gan y Comisiynydd i gynnal Asesiad Angen i helpu sicrhau bod comisiynu a gwaith partneriaeth yn y dyfodol yn cael eu gyrru ar sail tystiolaeth, ac i ddeall sut all y Comisiynydd gael yr effaith fwyaf ar sicrhau cymorth i ragor o ddioddefwyr a phobl sy'n agored i niwed wrth gydweithio â phartneriaid.

Nodir yr argymhellion ac ymatebion perthnasol o'r gwaith hwn islaw:

Argymhelliad: Sicrhau diwallu anghenion y rhai sy'n dioddef effeithiau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gan y partneriaid statudol allweddol, yn arbennig byrddau iechyd ac awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys, yn benodol:

- Mynd i'r afael â'r bwlch o ran darparu ymyriadau therapiwtig ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol fel blaenoriaeth.
- Hyrwyddo arfer gorau megis ymagwedd integredig i wasanaethau Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol, a darpariaeth tai â chymorth.

Ymateb: Mae'r Comisiynydd yn aelod creiddiol o Fwrdd Strategol Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Roedd y Comisiynydd yn helpu dod â phartneriaid at ei gilydd er mwyn cyd-gomisiynu'r gwasanaeth Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol cyntaf yn Nyfed-Powys, a ddechreuodd yng Ngorffennaf 2018. Trwy waith y Bwrdd Strategol, ystyrir datblygu ymhellach ymagweddau a modelau comisiynu. Hefyd, mae'r Cyfarwyddwr Comisiynu'n aelod o'r Pwyllgor Cydweithredu Rhanbarthol lle trafodir cyfleodd ar gyfer cyd-gomisiynu neu alinio â chyllid Cefnogi Pobl.

Mae'r Comisiynydd hefyd wedi codi pryderon gyda Gweinidogion a Phrif Weithredwyr asiantaethau partner o ran y diffyg gwasanaeth cwnsela therapiwtig. Bydd y Comisiynydd yn parhau i flaenoriaethu'r neges hon.

Argymhelliad: Argymhellir i'r Comisiynydd ddefnyddio ei brosesau comisiynu ei hun i ganolbwyntio ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wrth gomisiynu cymorth i ddioddefwyr.

Ymateb: Mae'r gwasanaethau a gomisiynwyd eisoes yn cynnwys ffocysu ar y meysydd hyn. Mae'r Comisiynydd yn ymwneud, ar lefel strategol, â datblygu a chyflwyno gwelliannau i'r gwasanaethau presennol. Mae'r Bwrdd Ymgynghorol Comisiynu yn craffu ar y grantiau a roddir a'r broses dendro ar gyfer gwasanaethau ac yn sicrhau bod darparwyr y gwasanaethau'n atebol. Yn Awst 2019, gwahoddwyd y sefydliad a gomisiynwyd ar gyfer y gwasanaeth Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol i gyflwyno diweddariad ar berfformiad y gwasanaeth i'r Bwrdd, a bwriedir i'r sefydliad sy'n darparu'r gwasanaeth Cam-drin Rhywiol gyflwyno diweddariad yn gynnar yn 2020.

Argymhelliad: Argymhellir bod y Comisiynydd yn cymryd rôl arweiniol o ran Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol er mwyn:

a. Hwyluso adolygiad 'cychwyn i ddiwedd' o'r broses Cyfiawnder Troseddol yn benodol, gan gysylltu â'r system cymorth ehangach ar gyfer y rhai sy'n dioddef effeithiau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, er enghraifft ymyriadau therapiwtig a thai.
b. Blaenoriaethu ymyriadau therapiwtig ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol.
c. Sicrhau bod yr holl wasanaethau Cyfiawnder Troseddol, a'r rhai a gomisiynwyd gan y Comisiynydd, yn cyfrannu i waith y Grŵp Strategol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol o ran mapio a gwella cysondeb cofnodi data.

Ymateb: Ar hyn o bryd, mae'r Comisiynydd yn cadeirio'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ac yn cael ei gynrychioli ar Fwrdd Strategol Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae'r Bwrdd wrthi ar hyn o bryd yn mapio'r gwasanaethau a gomisiynwyd a'r llwybrau troseddwyr / dioddefwyr cysylltiedig. Bwriedir i gyfarfod mis Hydref y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol dderbyn cyflwyniad gan yr arweinydd rhanbarthol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol fel y gall yr aelodau ystyried y mater a nodi unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol.

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau gwella parhaus, ond hyd yma mae Heddlu Dyfed-Powys heb nodi llwybr pendant ar gyfer dioddefwyr. Cafodd y Bwrdd Plismona adroddiad yn gynnar ym mis Medi ar waith diweddar o ran cam-drin domestig a rhywiol yn benodol.

Gweithgarwch Ymgysylltu

Cynhaliodd y Comisiynydd ddigwyddiad ar y cyd ym Mhencadlys yr Heddlu ym mis Hydref 2018 i ddathlu'r ffaith bod Heddlu Dyfed-Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin i gyd wedi ennill achrediad y Rhuban Gwyn. Roedd y digwyddiad yn tynnu partneriaid allweddol o'r sefydliadau hyn at ei gilydd, ac yn gyfle delfrydol i ddathlu'r gwaith caled sy'n cael ei wneud gan sefydliadau partner i fynd i'r afael â'r problemau a wynebir gan ddioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol. Ar ddiwedd y digwyddiad cafwyd trafodaeth bord gron a ganolbwyntiodd ar sut y gellir meithrin ymagwedd bartneriaeth tuag at gefnogi dioddefwyr yn y sefydliadau a gynrychiolwyd. Bydd y Comisiynydd yn tynnu'r partneriaid at ei gilydd eto yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 i asesu'r cynnydd a wnaed.

Mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i glywed hanesion personol dioddefwyr ac, yn ystod Medi 2019, mae wedi cwrdd â 2 unigolyn sydd wedi cael profiad heriol iawn o'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r Comisiynydd wedi ceisio deall eu profiad a dysgu sut y gellid gwella'r gwasanaethau.

Yn Nhachwedd 2018, ymwelodd y Comisiynydd â Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru yn Aberystwyth, gan gwrdd â rheolwyr i ddysgu am waith y gwasanaeth a'r cymorth a gynigir trwy'r ganolfan ac yn y gymuned. Hefyd, cafodd daith dywys o gwmpas y Tŷ Diogel, a thrafododd rai o'r heriau y mae'r gwasanaeth yn eu hwynebu.

Ym Mehefin 2019, cwrddodd y Comisiynydd â Grŵp SPRING yn Aberystwyth. Mae hwn yn grŵp o unigolion o oedran a chefndir amrywiol, a ddaeth i adnabod ei gilydd wrth ddilyn rhaglen bwrpasol ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig i'w helpu a'u cyfarwyddo wrth oresgyn effeithiau trawmatig byw mewn perthynas gamdriniol. Siaradodd y grŵp â'r Comisiynydd am eu pryderon ynghylch achosion unigol, ac mae'r Comisiynydd wedi gofyn iddynt ddarparu manylion iddo fel y gall drafod y rhain â'r Prif Gwnstabl.

Ymhlith yr adborth a gafwyd oedd teimlad bod diffyg cysondeb wrth i'r Heddlu fynd i'r afael â cham-drin domestig, ac os nad yw heddweision yn hyderus wrth ddelio â'r sefyllfa, gall hynny gynyddu'r risg i'r dioddefwyr. Roedd y grŵp o'r farn nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn addas i'r diben o ran delio â cham-drin domestig, a bod dioddefwyr, yn aml, yn wynebu trawma a heriau iechyd meddwl yn sgil eu profiad.

Comisiynu gwasanaethau

Mae'r Comisiynydd wedi gweithio gyda phartneriaid i sicrhau darparu'r gwasanaethau gorau oll i ddioddefwyr mewn un o'r ardaloedd mwyaf gwledig a daearyddol heriol yng Nghymru a Lloegr. Fel y nodwyd uchod, mae wedi ysgogi darn o waith i wella profiad dioddefwyr o'r gwasanaethau Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol. Yn y gorffennol, roedd pum contract unigol ar waith ar draws ardal yr Heddlu, gan osod llwybr dryslyd i ddioddefwyr a gweithwyr proffesiynol, a chan gynyddu'r risg o ddarpariaeth anghyfartal ac amrywiol i ddioddefwyr. Gweithiodd y Comisiynydd yn agos â'r pedwar Awdurdod Lleol yn Nyfed-Powys i gyd-gomisiynu contract sengl ar gyfer y fath wasanaethau ar draws ardal gyfan yr Heddlu. Mae hynny wedi sicrhau gwasanaeth cyfannol a di-dor i ddioddefwyr. Mae hefyd wedi galluogi comisiynwyr i sicrhau adnoddau ychwanegol am eu harian, gan wella'r gwasanaethau a sicrhau gwell gwerth am arian mewn cyfnod heriol.

Mae'r gwasanaeth newydd yn golygu bod y fath wasanaeth ar gael mewn llysoedd ar draws yr ardal, ac mae'n cydweithio'n agos â phartneriaid yn y gwasanaeth iechyd i sicrhau cynnig cymorth i ddioddefwyr wrth iddynt gael eu cysylltiad cyntaf, yn aml, â gwasanaethau rheng flaen.

Mae canlyniadau cynnar y gwasanaeth yn gadarnhaol iawn. Mae 72% o'r cleientiaid yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn gallu ymdopi'n well â bywyd beunyddiol wrth adael y gwasanaeth. Mae 76% yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy

diogel, a 77% eu bod yn teimlo'n fwy gwybodus ac wedi cael eu grymuso i weithredu.

I gefnogi'r datblygiad hwn ymhellach, mae'r Comisiynydd wedi darparu mwy o gyllid i Goleudy, y gwasanaeth cychwynnol i ddioddefwyr a thystion, i'w alluogi i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig lle mae asesiad risg Cam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddu yn dweud bod y risg yn safonol neu'n ganolig. Mae hyn yn sicrhau cynnig y lefel briodol o gymorth i bob dioddefwr cam-drin domestig, beth bynnag yw lefel y risg a aseswyd.

Cafwyd clod am waith y Comisiynydd yn y maes penodol hwn yn rhifyn ddiweddar y cyhoeddiad cenedlaethol *'PCCs Making a Difference: Putting Victims First in Focus'*.

Mae'r Comisiynydd wedi buddsoddi mewn gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr ymosodiad rhywiol ers sawl blwyddyn yn lleol. Yn 2013, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad i ystyried i ba raddau yr oedd y Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn bodloni gofynion manylebau gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru ac anghenion y dioddefwyr, ac i ystyried unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth a'r rhyngddibyniaeth rhwng y Canolfannau a gwasanaethau eraill. Roedd casgliadau'r adolygiad yn sail i'r cais am adolygiad amlasiantaethol o wasanaethau ymosodiad rhywiol ar draws y Canolbarth, y De, a'r Gorllewin, i'w arwain gan Gydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru. Yn ystod ei dymor yn y swydd, mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i'r prosiect hwn, ac yn ddiweddar mae wedi derbyn yr argymhellion terfynol am sefydlu canolfannau acíwt sy'n cynnig archwiliadau fforensig a meddygol a chymorth argyfwng brys i ddioddefwyr.

Fodd bynnag, mae'r prosiect rhanbarthol wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl ac mae'r Comisiynydd wedi codi nifer o bryderon trwy gydol y broses. Gan fod y prosiect wedi derbyn cyllid o Adran Iechyd Llywodraeth Cymru, mae'r Comisiynydd wedi gweithio gyda chydweithwyr yn y gwasanaeth iechyd yn lleol i sicrhau diogelu gwasanaethau rheng flaen a bod dioddefwyr yn parhau i dderbyn gwasanaethau hanfodol wrth i'r ail-drefnu fynd yn ei flaen. Mae hyn wedi cynnwys buddsoddiad gan y Comisiynydd i ddiogelu'r gwasanaethau.

Rhagwelir y bydd y canolfannau acíwt ar eu newydd wedd ar waith yn ystod 2020/21 ac, yn y cyfamser, mae'r Comisiynydd wedi estyn y contract gyda Llwybrau Newydd ar gyfer y ddarpariaeth leol.

Mae'r Comisiynydd wedi gweithio gyda phartneriaid yn y system cyfiawnder troseddol i sefydlu llwybrau rheoli troseddwyr ar bob lefel o risg. Arweiniodd y Comisiynydd gais amlasiantaethol i'r Swyddfa Gartref i ariannu cynllun gwirfoddol ar gyfer troseddwyr cam-drin domestig. Roedd y cais hwnnw'n aflwyddiannus, ond yn sgil hynny mae'r Comisiynydd wedi trafod y posibilrwydd o gyd-gomisiynu cynlluniau o'r fath gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei

Mawrhydi yn y dyfodol. Yn ddiweddar, mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi wedi cyhoeddi ei fwriad o sefydlu rhwydwaith caffael deinamig, a fydd yn creu rhestr o ddarparwyr sydd wedi mynd trwy broses dendro gystadleuol a bodloni gofynion sicrwydd ansawdd. Bydd gwasanaethau a brynir oddi ar y rhestr hon yn cynnwys y cynlluniau cymorth statudol ar gyfer troseddwyr cam-drin domestig ac mae'r Comisiynydd wedi datgan ei fwriad o weithio gyda'r Gwasanaeth i ddarparu cynlluniau anstatudol tebyg ar lefel gymunedol.

Grantiau

Mae'r Comisiynydd wedi ariannu offer a thechnoleg newydd i wella capasiti seiber-drosedd yr Heddlu. Mae hyn yn cynnwys capasiti arbenigol o ran archwilio dyfeisiadau digidol i ymateb i'r galw cynyddol, a defnyddio dulliau blaenoriaethu i dargedu'r dyfeisiadau sy'n cynnig y cyfle gorau o gasglu tystiolaeth. Bellach, mae'r Heddlu'n adeiladu ei gapasiti i archwilio ffonau mewn canolfannau lleol er mwyn cyflawni'r dasg ynghynt, yn arbennig pan fydd troseddwr drwgdybiedig eisoes yn y ddalfa. Bydd hyn yn hanfodol mewn achosion o gam-drin domestig a rhywiol lle mae perygl y bydd y dioddefwr yn ymddieithrio o'r broses yn ystod ymchwiliad hir.

Mae penderfyniad y Comisiynydd i fuddsoddi eto mewn TCC o gymorth hefyd, ac mae tystiolaeth o'r camerâu eisoes wedi bod o werth enfawr mewn nifer o ymchwiliadau, yn ogystal â thawelu meddyliau'r cyhoedd. Mewn enghraifft ddiweddar a drafodwyd gan y Bwrdd Plismona, defnyddiwyd cofnodion TCC i hwyluso erlyniad heb ymwneud y dioddefwr mewn achos lle'r oedd y dioddefwr yn gyndyn i gefnogi'r erlyniad.

Mae'r Comisiynydd wedi rhoi dros £50,000 o grantiau i sefydliadau cymunedol sy'n codi ymwybyddiaeth ac sy'n darparu cymorth yn ymwneud â cham-drin domestig a rhywiol. Dyma ychydig o enghreifftiau:

- £5,000 i Sefydliad Lucy Faithful i godi ymwybyddiaeth am ecsbloetio plant yn rhywiol
- £19,916 dros gyfnod o dair blynedd i wasanaethau cwnsela Seren
- £15,000 i Wasanaethau Cam-drin Domestig Trothwy i gefnogi ei brosiect ymyriad teuluol cynnar
- £5,000 i Wasanaethau Cam-drin Domestig Caerfyrddin ar gyfer grŵp cymorth i ddynion
- £5,500 ar gyfer ymgyrch *Stop It Now! Cymru* ar gyfer rhaglen i gefnogi teuluoedd sy'n dioddef oherwydd ymddygiad rhywiol niweidiol ar-lein
- £10,000 i Gwmni Theatr Arad Goch ar gyfer ei gynhyrchiad *Tempted* a seilir ar bryderon pobl ifanc ynghylch ecsploetio rhywiol

Mae'r Comisiynydd wedi gweithio gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru hefyd i ennill cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i brynu pecynnau 'agored i niwed' i helpu i ddiogelu dioddefwyr cam-drin domestig.

Casgliad

Mae'r Comisiynydd yn gwneud cynnydd cadarnhaol ar bob agwedd ar ei ymrwymiad i ddiogelu'r rhai agored i niwed.

Mae ymgysylltu uniongyrchol y Comisiynydd â dioddefwyr yn ei alluogi i ddeall profiadau unigolion o'r gwasanaethau a ddarperir gan yr Heddlu a phartneriaid eraill y system cyfiawnder troseddol. Mae'r mewnwelediad hwn yn ei alluogi i nodi pa welliannau sydd eu hangen o ran y ffordd y mae dioddefwyr yn cael eu trin a'u cefnogi. Trwy ei waith gyda phartneriaid a'i ddylanwad dros y gwasanaethau a gomisiynir, mae'r Comisiynydd yn gallu gyrru'r gwelliannau hyn yn eu blaen. Mae ei oruchwyliaeth o waith yr Heddlu wedi helpu i sicrhau ffocws parhaol ar sicrhau gwell canlyniadau i ddioddefwyr.

Mae ymrwymiad ariannol y Comisiynydd i ddarparu gwasanaethau a'r cyfraniadau i elusennau o fewn ardal Heddlu Dyfed-Powys yn sicrhau rhwydwaith allweddol o wasanaethau cymorth ar gyfer y rhai sy'n dioddef cam-drin domestig a rhywiol. Mae'r ffordd y datblygwyd gwasanaethau wedi'u cyd-gomisiynu wedi derbyn clod ar lefel genedlaethol.

Mae'r Comisiynydd wedi bod yn rhagweithiol wrth geisio deall anghenion dioddefwyr a phobl agored i niwed ac wrth werthuso'r gwasanaethau cyfredol, gan weithredu ar argymhellion a wneir. Mae'r Bwrdd Ymgynghorol Comisiynu a sefydlwyd gan y Comisiynydd yn ychwanegu lefel arall o graffu ac yn rhoi sicrwydd bod y darparwyr yn darparu gwasanaethau effeithiol.

Mae'r Comisiynydd yn parhau i weithio'n lleol gyda phartneriaid megis y gwasanaeth iechyd, ac yn genedlaethol gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu eraill, Aelodau Cynulliad, Llywodraeth Cymru, a'r Swyddfa Gartref, i lobïo o blaid gwasanaethau gwell ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig a rhywiol. Bydd y gwaith hwn yn datblygu ymhellach yn 2019/20 wrth i'r Comisiynydd ymgymryd â rôl Cadeirydd Grŵp Plismona Cymru Gyfan, a thrwy waith Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru.